Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost® Dyffryn Ardudwy**
**Dyffryn Ardudwy, LL44 2EL**

**Cau'r Gangen Dros Dro**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod fod y gangen uchod, am resymau gweithredol, wedi cau dros dro ddydd Mercher 23 Mai 2018. Mae'n ddrwg iawn gennyf am fod yn hwyr yn rhoi gwybod ichi'r tro hwn.

Rydym yn ymdrechu i adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post yn Nyffryn Ardudwy a hoffwn ymddiheuro am unrhyw anhwylustod y gallai'r cau dros dro ei achosi yn lleol. Yn y cyfamser, gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio Swyddfa'r Post. Mae'r manylion llawn am wasanaethau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae rhagor o wybodaeth am yr Egwyddorion hyn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Hoffem ddiolch ichi am fod yn amyneddgar ac rydym yn addo y cewch wybod am unrhyw ddatblygiadau maes o law.

Yr eiddoch yn gywir

*Carol Williams*

**Carol Williams**
**Rheolwraig Ardal dros Newidiadau i'r Rhwydwaith**

**Sut i gysylltu â ni:**

comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch sut y gwnawn hyn ar ein gwefan yn postoffice.co.uk/privacy

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55.**

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

Mae copi llawn o'r Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ar gael ar postofficeviews.co.uk

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb.

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

## Canghennau eraill:

**Swyddfa Bost Abermo**
McColls Retail Group
Y Stryd Fawr
Abermo
LL42 1DW

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, yn ogystal â Threth y Car, dewis cynhwysfawr o Arian Teithio, Gwirio ac Anfon Pasbort ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 06:00 – 19:00 |
| Mawrth | 06:00 – 19:00 |
| Mercher | 06:00 – 19:00 |
| Iau | 06:00 – 19:00 |
| Gwener | 06:00 – 19:00 |
| Sadwrn | 06:00 – 19:00 |
| Sul | 07:00 – 16:00 |

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae yna barcio am amser cyfyngedig ar ymyl y ffordd gerllaw. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng cangen Dyffryn Ardudwy a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf 160 metr i ffwrdd.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 5.2 milltir o gangen Dyffryn Ardudwy ar hyd tir amrywiol ei natur.

---

**Swyddfa Bost Harlech**
Siop Spar
Y Stryd Fawr
Harlech
LL46 2YA

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, yn ogystal â Doleri a Threth y Car, ond dim Loteri Genedlaethol.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 08:00 – 20:00 |
| Mawrth | 08:00 – 20:00 |
| Mercher | 08:00 – 20:00 |
| Iau | 08:00 – 20:00 |
| Gwener | 08:00 – 20:00 |
| Sadwrn | 08:00 – 20:00 |
| Sul | 08:00 – 20:00 |

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio â chyfyngiadau y tu allan i'r gangen. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng cangen Dyffryn Ardudwy a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf 150 metr i ffwrdd.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 5.4 milltir o gangen Dyffryn Ardudwy ar hyd tir amrywiol ei natur.